EVANS, RICHARD THOMAS (1892 - 1962), gweinidog a gweinyddwr (B)

Enw: Richard Thomas Evans
Dyddiad geni: 1892
Dyddiad marw: 1962
Priod: Maria Myfanwy Evans (née Thomas)
Rhiant: Mary Evans
Rhiant: David Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog a gweinyddwr (B)
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd 8 Hydref 1892 ym Mhen-y-graig, Cwm Rhondda, Morgannwg, yn fab i David a Mary Evans (lladdwyd y tad mewn damwain yng nglofa Abercynon yn 1924). Yr oedd y tad yn Fedyddiwr amlwg yn ei ardal, yn arbennig wedi symud i fyw i Abercynon, a bu'n ddiacon yno yn eglwys Calfaria ac yn frwd ei gefnogaeth i'r ymgyrch yn ail ddegawd y ganrif i sefydlu Cronfa Gynhaliol yr enwad. Aelod gyda'r Wesleaid oedd y fam, yn chwaer i weinidog yn y cyfundeb hwnnw, John Edward Thomas (1875 - 1959). Bedyddiwyd ef yn ifanc ym Methlehem, Trealaw, ond yng Nghalfaria, Abercynon, y codwyd ef i bregethu. Yn Nhrealaw hefyd y derbyniodd ei addysg gynnar, ac wedi hynny yn ysgolion uwchradd y Porth ac Aberpennar, a bu'n ddisgybl-athro ac athro am gyfnod yn Abercynon cyn ei dderbyn yn 1914 yn fyfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol a choleg y Bedyddwyr, Bangor. Oherwydd y gwendid corff a'i poenai ar hyd ei oes, nid yw'n debyg y buasid wedi galw am unrhyw fath o wasanaeth milwrol ganddo yn ystod Rhyfel Byd I, ond gan gryfed ei safiad heddychol mynnodd gefnu ar Fangor i'w ordeinio 23 Mai 1917 yn Ainon a'r Tabernacl, Bodedern. Dychwelodd i'r coleg yn y fl. 1919-20 i orffen ei radd B.A. a sefydlwyd ef wedyn yn ei dro 23 Mehefin 1920 ym Mhorthmadog, 14 Mehefin 1922 yn Nhrefdraeth, Penfro, a 26 Mai 1927 yn Rhydaman. Ymhen saith mlynedd dewiswyd ef yn ysgrifennydd Undeb Bedyddwyr Cymru, a chyflwynwyd ef i'w swydd yn ystod y gynhadledd flynyddol ym Methesda, Abertawe, 3 Medi 1934. Ymddeolodd ddydd Llun y Pasg 7 Ebrill 1958, ac fel teyrnged i'w wasanaeth fe'i codwyd yn llywydd Adrannau Cymraeg a Saesneg Undeb Bedyddwyr Cymru am y fl. 1958-59 (eithr heb alw arno i draddodi anerchiad), a'i dystebu'n hael mewn cyfarfod cyhoeddus yn Abertawe 5 Rhagfyr 1958. Parhaodd i fyw yn Abertawe, ac yn ei gartref yno yn 11 Gower Road, Sgeti, y bu farw 13 Mehefin 1962. Claddwyd ef, yn ôl ei ddymuniad ei hun, yn breifat. Er gwaethaf pyliau parhaus o afiechyd, llwyddodd i arwain Bedyddwyr Cymru yn ddiogel drwy gyfnod o gryn gyfnewid ac ad-drefnu, a bernir mai ei brif orchest oedd canoli gweithgareddau'r enwad dan yr unto yn y swyddfa newydd yn Nhŷ Ilston a agorwyd yn Abertawe yn 1940.

Priododd 28 Mawrth 1921 yn Seion, Glanconwy, Maria Myfanwy (ganwyd 27 Mehefin 1893), merch William Wallace Thomas (1832 - 1904), brodor o Bentrefoelas a gweinidog (A) ym Maes-glas, ger Holywell, o 1873 hyd ei ymddeol i Lanconwy yn 1885. Ei chymwynas bennaf hi oedd arwain Mudiad Chwiorydd y Bedyddwyr i sefydlu cartref henoed yr enwad yn Nglyn Nest, Castellnewydd Emlyn, ac yr oedd yn briodol mai hi a wahoddwyd i'w agor yn swyddogol 26 Medi 1970, ac mai yno y treuliodd y deunaw mis olaf o'i hoes, o Fedi 1978 hyd ei marw yn ysbyty Glangwili ddydd Llun 4 Chwefror 1980. Amlosgwyd ei gweddillion ym Mharc-gwyn, Arberth, 11 Chwefror canlynol. Ganed o'r briodas, 16 Mai 1934, un mab.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Seren Cymru, 15 Mehefin 1917, 30 Gorffennaf 1920, 12 Mai, 28 Gorffennaf 1922, 20 Mai, 10 Mehefin 1927, 14 Tachwedd 1934, 20 Mehefin, 4 Gorffennaf, 5 Rhagfyr 1958, 22, 29 Mehefin, 13 Gorffennaf 1962, 9 Hydref 1970, 7 Mawrth 1980

Seren yr Ysgol Sul yn cynwys bywgraffiaeth, hanesiaeth naturiol, barddoniaeth, cerddoriaeth, &c., 1932, 2-6, 1934, 220

Yr Arweinydd Newydd, 1935, 129-31

Seren Gomer, 1962, 94, 1966, 47-8

Baptist Times, 21 Mehefin 1962

Baptist Handbook, 1963, 361

Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru, 1963, 116-17

Gwilym Owen, *Da Was* (1966) (1966), 53-5

The Congregational Year Book, 1905, 189

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

gwybodaeth gan ei weddw

a chan Eilwen Jenkins, Capel Iwan

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738149

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Ffrannu

Arddull APA

×

Owens, B. G., (1997). EVANS, RICHARD THOMAS (1892 - 1962), gweinidog a gweinyddwr (B). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 2 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-EVAN-THO-1892

Copïo'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGEL
THE NATI

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government